# Crewyr Cadw: Comics



# Diddymu'r mynachlogydd

## Llys yr Esgob, Tyddewi


Cyfarwyddwr Celf: Nick Price
Inclwr: Lauren Dix
Cynhyrchwyd gan: Turnip Starfish Limited

# Diddymu'r mynachlogydd – Llys yr Esgob, Tyddewi





A! Cromwell! Rwyt ti yma'r hen gi!
Rwyt wedi fy ngwasanaethu'n dda dros y blynyddoedd. Hebddot ti, ni allwn fyth fod wedi ysgaru Catherine a phriodi Anne.
Eich Mawrhydi, mae'n fendigedig eich gwasanaethu.
Iawn, iawn, rwyf wedi dy alw di yma heddiw oherwydd mae'n dal i fod yn rhwystredigaeth i mi fod ein mynachlogydd ac abatai mor gyfoethog. Ti yw fy nyn cyfraith. A oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud?
Wel, Eich Mawrhydi, rwyf wedi bod yn meddwl am ddeddf newydd y gallwn ni ei chyflwyno. Os byddai'r ddeddf honno'n nodi mai chi oedd pen yr Eglwys yng Nghymru a Lloegr, yna ni fyddai unrhyw beth i'ch rhwystro rhag gwneud arian o'r eglwys, os oeddech am wneud hynny!
Mae hwn yn syniad rhagorol!
Gwnawn ni annog ein pobl i adael y ffydd Babyddol a dilyn y Diwygiad Protestannaidd newydd.
Rwyf am roi teitl pwerus i'r ddeddf, er mwyn adlewyrchu'r pŵer newydd fydd gen i.
Beth am...
Y Ddeddf Goruchafiaeth?
Rhagorol, Thomas, fe wnaiff hynny'r tro i'r dim!

O 1534 ymlaen, bu'r Brenin Harri VIII a Thomas Cromwell yn gyson yn ceisio ffyrdd cyfreithiol o gymryd arian oddi wrth yr Eglwys, a hynny er budd y Goron.






Llys yr Esgob, Tyddewi, Sir Benfro, Cymru
Esgob Rawlins, a ydych chi wedi clywed y newyddion?
Mae Thomas Cromwell yn anfon dynion i asesu gwerth yr holl fynachlogydd, abatai a phriordai.
Ydw. Rwy'n credu y byddwn yn dechrau gweld adeiladau lleol fel Priordy Hwlf-fordd yn cau. Amser yn unig a ddengys.
Y flwyddyn 1536
Wel, Cromwell! Mae'r Ddeddf Diddymu'r Mynachlogydd Llai mewn grym!
Ydy, Eich Mawrhydi, mae'r Ddeddf newydd yn nodi bod rhaid ildio pob addoldy sydd ag incwm o £200 neu lai y flwyddyn i'r Goron.
Cromwell, beth fydd yn digwydd i fynachod a lleianod yr addoldai hyn?
Byddant yn cael dewis. Gallant naill ai gael eu symud i addoldy mwy neu dderbyn pensiwn.
Gwnaf i orchymyn bod unrhyw beth o werth yn cael ei dynnu o'r adeiladu ...
Gall y dodrefn fynd i ocsiwn. Gwnaf i adael i arglwyddi ac uchelwyr rentu'r tir gen i.
Ymhen fawr o dro, bydd gen i ddigon o arian i dalu fy myddinoedd ac i gadw Lloegr a Chymru'n ddiogel.



Yn y cyfamser, yn Llys yr Esgob, Tyddewi, Sir Benfro, Cymru
Cnoc cnoc
Dewch i mewn!
Fe wnaethoch alw amdanaf, Esgob Rawlins...
Sgriblan sgriblan
Gwnes i alw amdanoch heddiw i ddweud wrthych y bydd yr holl addoldai bach yn Sir Benfro yn cau.
Dydw i ddim yn ddyn iach, a bydd esgob newydd yn cymryd fy lle yn fuan. Rwy'n gofyn i chi roi cymorth i'r sawl a fydd yn fy olynu wrth gef-nogi'r bobl hynny sy'n gorfod ymadael.
Rwy'n credu bod Wiliam Barlow, Esgob Llanelwy, yn chwilio am benodiad newydd.
**Yr Esgob Barlow** sydd wedi bod yn helpu Thomas Cromwell i gau'r abatai!
Mae'n gwrthwynebu Catholigiaeth ac mae bob amser wedi hybu'r Diwygiad Protestannaidd!
Ni fydd pawb yn derbyn y Ddeddf newydd hon, yn enwedig yng ngogledd Lloegr, ble mae pobl yn benderfynol o ddal ymlaen i'w ffydd Gatholig!





Crewyr Cadw: Comics





O gael ei ysbrydoli gan eu gwrthryfel yn Lincoln, dechreuodd ail wrthryfel ar 13 Hydref 1536, dan arweinyddiaeth dyn o'r enw Robert Aske.
Mae'n rhaid i ni wrthsefyll deddfau'r brenin. Mae'r cynhaeaf wedi methu ac mae pobl yn newynu oherwydd nad yw'r mynachlogydd ar agor i roi bwyd a llety iddynt.
Cawsant wared ar y mynachlogydd pan mae pobl eu hangen fwyaf. Gwnawn ni orymdeithio i Efrog. Enw ein gorymdaith fydd y Bererindod Gras!


Dilynodd 40,000 o brotestwyr Aske i Efrog.


Fi yw Dug Norfolk, ac mae'r Brenin Harri VIII wedi fy nanfon yma i wrando ar eich gofynion.
Os gallech aros, siaradaf â'r brenin a helpu rhywfaint o addoldai i ailagor.


Mae Dug Norfolk wedi'n twyllo ni!
Mae e wedi'n twyllo ni!
Rhedeg!
Erbyn i'r protestwyr sylweddoli eu bod wedi'u twyllo, roedd yn rhy hwyr...
Cafodd Robert Aske ei arestio gan y brenin am y weithred o frad. Ni ddigwyddodd unrhyw wrthryfel arall. Roedd tynged yr addoldai Catholig yn anochel.


Dyma ti, Cromwell!
Mewn tair blynedd, dyw'r Goron heb wneud digon o arian o'r mynachlogydd ac abatai bach...
Efallai bod angen cyfraith newydd arnom ar gyfer cau'r mynachlogydd ac abatai mwy?
Mae hwn yn swnio fel syniad rhagorol!
Gallwn ei alw'n Ddeddf Diddymu'r Mynachlogydd Mwy 1539.
Pan fydd popeth o werth wedi'i dynnu ohonynt, efallai y rhoddaf rywfaint o'r tir i'r dynion hynny sydd wedi fy helpu yn ystod yr adeg anodd hon...
A fyddet ti am unrhyw dir yn arbennig, Thomas Cromwell?
Fel y mae'n digwydd, hoffwn i gael ychydig o dir yng Nghymru... Beth am Abaty Ystrad Fflur?
Wrth gwrs, dyna'r peth lleiaf y gallaf ei wneud i ti, Thomas...
Mae Henry Somerset wedi bod yn driw i'n hachos. Thomas, gwna nodyn y caiff e Abaty Tyndyrn.
Iawn, Eich Mawrhydi...




Crewyr Cadw: Comics

# Dysgu pellach i bawb



Adnoddau addysgiadol pellach, teithiau digidol, ffilmiau treftadaeth 15 munud a syniadau ar gyfer prosiectau dysgu, yn cynnwys lliaws o gomics a gweithgareddau celf comics, ar gael ar ein gwefan: Cadw.llyw.cymru/dysgu

Dod o hyd i le i'w ymweld
**Cadw.llyw.cymru/ymweld**

Cof Cymru
Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru
**cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru**

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Rhestr enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru
**rcahmw.gov.uk/discover/list-of-historic-place-names**

Coflein - Catalog ar-lein o archaeoleg, adeiladau, treftadaeth ddiwylliannol ac arforol yng Nghymru
**Coflein.gov.uk**

Archwilio
Cofnodion Amgylcheddol Hanesyddol Cymru
**Archwilio.org.uk**

Dod o hyd i adnoddau dysgu Cadw a nifer o sefydliadau eraill celfyddydol, treftadaeth a diwylliannol ar Hwb
**Hwb.cymru**

**@CadwWales**

**@CadwWales**

**@CadwCymruWales**